**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-822
Ein cyf/Our ref MD/00428/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

28 Awst 2018

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf at Weinidog yr Amgylchedd ynghylch Deiseb P-05-822, mewn perthynas â gwellt plastig. Gofynnwyd i mi ymateb i'r llythyr gan fod y materion y gwnaethoch dynnu sylw atynt yn rhan o'm mhortffolio.

Rwy'n falch o weld fod gan ddisgyblion Ysgol y Wern gymaint o ddiddordeb mewn materion amgylcheddol a'u bod wedi mynd ati i lunio deiseb.

Rwyf wedi ymateb i bob un pwynt yn unigol.

- Caiff cyrff cyhoeddus yng Nghymru eu hannog i osgoi defnyddio cynhyrchion plastig untro lle y bo'n bosibl, a hynny er mwyn lleihau gwastraff a'n helpu i gyflawni ein nod o ddefnyddio adnoddau un blaned yn unig erbyn 2050. Mae nodau cenedlaethol a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'n hystyriaethau caffael. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyflenwyr i edrych ar y materion sy'n gysylltiedig â gwellt plastig a cheisio dod o hyd i ddewisiadau eraill ymarferol. Drwy'r gwaith hwn, byddwn yn gweld pa gartonau llaeth / gwellt mae ysgolion yn eu prynu a pha ddewisiadau eraill sydd ar gael, a'r costau cysylltiedig. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, rhoddir ystyriaeth ofalus i osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai gael effaith negyddol mewn maes arall, ac i sicrhau ein bod yn gweithio gyda busnesau Cymru i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau o ran gofynion. Dechreuodd fy swyddogion edrych ymhellach ar hyn yn ddiweddar drwy drafod â Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, Cangen Strategaeth Wastraff Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac rydym yn gweithio ar yr amserlen ar gyfer hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

- Mae Gwerth Cymru wrthi'n cydweithio â sawl awdurdod lleol ar brosiectau peilot sy'n ceisio dangos sut y mae modd gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymarferol o fewn gwaith caffael. Mae Cyngor Sir Penfro wrthi'n arbrofi â defnyddio poteli llaeth gwydr a deunyddiau eraill yn lle rhai plastig mewn saith ysgol o fewn eu hawdurdod. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r defnydd o wellt plastig. Bydd canlyniad y prosiect peilot hwn, a fydd yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2018, ar gael i gyrff cyhoeddus eraill ei rannu.

- Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi bod yn ymgynghori â chyflenwyr ar y Dangosydd Perfformiad Allweddol newydd, a fydd yn galluogi cyflenwyr i fesur a monitro eu hôl troed carbon. Cynhaliwyd gweithdy ar 23 Gorffennaf gyda deg o gyflenwyr, a disgwylir cynnal ymgynghoriad pellach ym mis Medi.

- Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrthi'n cydweithio â'i gyflenwyr ar fframweithiau ac ag awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn ceisio lleihau/gwaredu y defnydd o blastigau - gan gynnwys gwellt - yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi ymrwymo i sefydlu cynaliadwyedd o fewn ei fframweithiau ac mae wedi llofnodi Ymrwymiad Courtauld 2025, sef cytundeb gwirfoddol sy'n dwyn ynghyd gynhyrchwyr a defnyddwyr er mwyn sicrhau bod y defnydd o fwyd a diod a'r gwaith o'u cynhyrchu yn fwy cynaliadwy.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn edrych i weld sut y gallai codi tâl neu newid y system dreth helpu i roi sylw i'r problemau sy'n gysylltiedig â phlastig untro. Byddwn yn cydweithio'n agos â nhw ar unrhyw gamau i wahardd eitemau plastig untro penodol, gan gyfrannu sylwadau o Gymru. Mae diddordeb plant Ysgol y Wern yn gyfraniad defnyddiol iawn i'r gwaith hwn.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance